

# Adnodd modelu adsefydlu

## Pwrpas

Ym mis Mai 2020, lluniodd Llywodraeth Cymru ddogfen bolisi " fframwaith adsefydlu Gwasanaethau Iechyd a Chymdeithasol. Mae'r fframwaith hwn yn cefnogi gwasanaethau i gynllunio ar gyfer y galw cynyddol a ragwelir am adsefydlu grwpiau poblogaeth, gan gynnwys oedolion a phlant. Mae gwaith dilynol wedi cadarnhau cymhwysedd y modelau y tu hwnt i covid-19 i fodloni anghenion adsefydlu ehangach pobl ledled Cymru.

Fel rhan o'r fframwaith a'r canllawiau adsefydlu cenedlaethol hwn, roedd yn hanfodol datblygu adnodd modelu i ategu'r gwaith hwn ac arwain gwasanaethau i ragweld y galw ar wasanaethau adsefydlu ac ystyried a oes gwasanaethau ar gael ac yn y manau cywir i gyflawni'r hyn sydd ei angen. Defnyddir modelu gwasanaeth yn aml o fewn darpariaeth gofal modern i helpu i gefnogi dealltwriaeth o'r angen am wasanaethau o fewn cymunedau ac i gyfateb capasiti, a'r defnydd o adnoddau i gydfynd â'r galw hwn. Mae fersiwn 2 o'r adnodd modelu adsefydlu wedi'i ddatblygu gan ddefnyddio dadansoddiad o ddata, tystiolaeth gyhoeddedig a thystiolaeth heb ei chyhoeddi a gwybodaeth anecdotaidd lleol. Mae'r wybodaeth hon wedi cynnwys amcangyfrif o bamedrau sydd wedi'u neilltuo er mwyn gallu mesur sut y bydd y galw'n codi dros amser.

Mae'r adnodd modelu adsefydlu yn gymorth gweledol i helpu rheolwyr gwasanaeth, arweinwyr proffesiynol a chynllunwyr i archwilio'r galw gwirioneddol am anghenion adsefydlu ac i fapio gwasanaethau presennol a gwasanaethau'r dyfodol i fodloni anghenion adsefydlu poblogaethau cenedlaethol a lleol. Bydd casglu data cywir ac ystyrlon, a archwilir yn y [\(Fframwaith Gwerthuso Adsefydlu\)](#) cysylltiedig yn bwydo drwy'r model er mwyn galluogi rhagfynegiadau mwy realistig o adsefydlu ac anghenion y presennol a'r dyfodol.

## Proses o ddatblygu'r adnodd modelu

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno'r adnodd modelu sydd wedi'i ddatblygu drwy ddull cydweithredol rhwng Llywodraeth Cymru, clinigwyr a rheolwyr gwasanaethau, ystadegwyr/y rhai sy'n modelu'n fathemategol, ac uwch reolwyr yn uned gyflawni'r GIG.

Datblygwyd fersiwn 1 o'r adnodd modelu gyda ffocws ar covid-19. Cafwyd tystiolaeth o ddata ac ymchwil cenedlaethol a rhyngwladol sy'n cysylltu â Covid-19 ond hefyd pandemig neu drychinebau tebyg, yn ogystal â data lleol Cymru a gwybodaeth anecdotaidd gan wasanaethau sy'n darparu gofal. Cydnabyddir nad yw natur newydd ac effaith newidiol y firws covid-19 yn caniatáu i wasanaethau dynnu ar dystiolaeth

gadarn ac eang. Mae'r tîm sy'n creu hyn felly wedi defnyddio'r holl adnoddau sydd ar gael, gan gynnwys y rheini o bandemig a thrychinebau eraill, i ragfynegi pwy, pryd a faint o adsefydlu y gallai fod ei angen ar wahanol garfanau yn dilyn covid-19 ac mae'n debygol o newid ac addasu wrth i dystiolaeth a gwybodaeth newydd ddod i'r amlwg.

Arweiniodd y gweithwyr proffesiynol modelu'r grŵp gan ddefnyddio dull strwythuro problemau ymchwil gweithredol<sup>1</sup>, a gan weithio gyda'r grŵp ffrwd gwaith i ddatblygu model adsefydlu gofal fesul cam cysyniadol o'r llif posibl o garfannau i mewn a rhwng gwasanaethau. Daeth y rhaglen gydweithredol â'u gwybodaeth brofiadol ac ymchwil helaeth i weithio gyda'i gilydd i strwythuro, i ddechrau, gyfres o luniau cyfoethog o'r agweddau allweddol ar lif ar gyfer pob carfan, ac a gafodd eu mireinio'n fodel adsefydlu gofal fesul cam cysyniadol strwythuredig o fanylion gofynnol trwy nifer o gyfarfodydd dilynol lle bu cyfranogwyr yn myfyrio ar y dystiolaeth a gwybodaeth leol. Arweiniodd hyn at ddiagram llif yn cynrychioli dwyster fesul haen / cymhlethdod gwasanaethau, fel ffordd effeithiol o ddal y llwybrau gofal.

Gan ddilyn y dull uchod o greu diagram model adsefydlu fesul cam, mae gwerthoedd wedi'u neilltuo i'r gyfran o garfan a fydd yn llifo drwy bob llwybr, a pha mor hir y bydd aelod o'r garfan yn ei dreulio ar bob cam. Cynrychiolir y rhain fel system o arosiadau a gweithgareddau (neu nodau) sy'n caniatáu, gyda'r defnydd o dybiaethau allweddol a data sydd ar gael, i adeiladu adnodd modelu mathemategol cychwynnol sy'n dechrau caniatáu ar gyfer rhagweld y galw am wasanaeth dros amser.

Mae fersiwn 2 o'r model yn adlewyrchu cymhwysedd ehangach y model cysyniadol a'r adnoddau modelu, y tu hwnt i ffocws Covid-19.

Mae'r adnodd modelu wedi'i gynllunio i fod yn her i wasanaethau a'n galluogi i wirio a yw dyluniad yr adnodd yn adlewyrchu cyflwyniadau lleol. Nod yr adnodd hwn yw cefnogi coladu data a sefydlu llinell sylfaen adsefydlu (yn ystod cyfnodau nad ydynt yn ymwneud â Covid-19). Gall yr adnodd modelu penderfyniadol arfaethedig (h.y. nid oes haprwydd) fod yn gymharol syml ei natur ond dylai roi trosolwg lefel uchel o'r galw a ragwelir dros amser a gellid ei ddefnyddio ar gyfer amrywiaeth o senarios (e.e., achos gorau, achos gwaethaf ac ati.).

Mae'r tîm sydd wedi cydweithio i ddatblygu'r model hwn yn parhau i fod yn awyddus i ymgysylltu â nifer eang o bartneriaid i brofi a mireinio'r model arfaethedig ym mhob rhan o Gymru.

---

<sup>1</sup> DOI: [10.1016/j.ejor.2007.02.027](https://doi.org/10.1016/j.ejor.2007.02.027) Howick, Susan & Eden, Colin & Ackermann, Fran & Williams, Terry. (2008). Building confidence in models for multiple audiences: The modelling cascade. European Journal of Operational Research. 186. 1068-1083. 10.1016/j.ejor.2007.02.027.

## Yr adnodd modelu Adsefydlu


Mae diffiniad set ddata adsefydlu genedlaethol yn dal i gael ei ddatblygu gan Gofal Iechyd Digidol Cymru ac mae datblygiad yr adnodd modelu hwn wedi gorfod ystyried llawer o bethau anhysbys, wedi'u llywio gan enghreifftiau o achosion a barn arbenigwyr. Rydym yn gobeithio parhau i adeiladu'r dystiolaeth, wrth inni weithio gyda gwasanaethau, timau, a chynllunwyr lleol, i'n helpu i ddatblygu a newid y model ymhellach i adlewyrchu anghenion adsefydlu pobl yn gywir. Rydym wedi gorfod defnyddio rhai egwyddorion a thybiaethau i danategu'r adnodd modelu; Wrth i chi edrych ar y model bydd gennych lawer o gwestiynau, felly ystyriwch sut mae'r egwyddorion arweiniol wedi siapio'r gwaith hwn.

Crynhair y rhain isod:

- a. Mae'r adnodd modelu wedi'i gynllunio i adlewyrchu anghenion adsefydlu ac nid yw'n cynnwys darparu gweithgareddau sy'n ymwneud â gofal y gallai fod eu hangen yn ogystal ag adsefydlu.
- b. Nid yw'r adnodd modelu wedi'i brofi'n llawn gyda gwasanaethau sy'n darparu adsefydlu i, er enghraifft, blant a theuluoedd neu ieuchyd meddwl (i enwi ond ychydig) neu gyda chraffu ar y mathau o adsefydlu a gynigir (e.e. therapïau penodol / ail-alluogi / cyn-adsefydlu). Rhagwelir y bydd hyblygrwydd yr adnodd yn berthnasol i'r holl fathau hyn o wasanaethau ond mae profi a chydweithio pellach gyda'r bobl sy'n darparu'r gwasanaethau hyn yn hanfodol i ddatblygiad yr adnodd modelu.
- c. Er ei fod wedi'i ddatblygu fel model cenedlaethol i ddeall y galw, bydd y model yn cael ei gymhwyso ar lefel leol i ymgorffori demograffeg poblogaeth benodol, gwahaniaethau diwylliannol a data lleol yn ymwneud â phob persona.
- d. Nid yw'r model yn seiliedig ar un pwynt amser oherwydd gall pobl gyflwyno ar adegau gwahanol.
- dd. Nid yw'r model adsefydlu yn canolbwyntio ar yr amgylcheddau lle mae adsefydlu'n digwydd (e.e. ysbyty/lleoliadau gofal). Gall pob gwasanaeth ddarparu adsefydlu mewn amrywiaeth o leoliadau ar hyn o bryd ac ni ddylai lefel yr adsefydlu sydd ei angen fod yn gysylltiedig â lleoedd penodol. Mae'r adnodd yn pwysleisio maint a natur yr anghenion adsefydlu fel bod y model yn hyblyg i adlewyrchu'r modd y darperir gwasanaethau lleol a'r dulliau gweithredu eang ac amlasiantaethol a ddefnyddir i ddarparu adsefydlu mewn gwahanol rannau o Gymru. Mae gwybodaeth ychwanegol am y ffactorau a all bennu ble y mae adsefydlu'n digwydd wedi'i chynnwys yn yr adolygiad o lenyddiaeth gwmpasu sy'n gysylltiedig â'r fframwaith adsefydlu a'r papur canllaw.
- e. Mae'r adnodd hwn wedi'i gynllunio fel y gellir ei ddefnyddio hefyd i ragweld y galw am adsefydlu o dan amrywiaeth o amgylchiadau (fel yn ystod y

pandemig, pan fydd gwasanaethau arferol yn ailddechrau ar ôl y pandemig, ac i'r dyfodol). Mae hyn yn bwysig ar gyfer deall a rhagweld y galw am yr holl wasanaethau adsefydlu yn y dyfodol.

f. Mae'r adnodd modelu adsefydlu wedi'i gynllunio i ategu adnoddau modelu eraill sy'n ymwneud ag e.e. cymunedau o faint cywir a chynllunio rhyddhau.



Rehabilitation Modelling Tool/ Published version 1/July 2020

### Sut gallwch chi ddefnyddio'r model hwn fel adnodd dysgu yn eich sefydliad?

1. Yn y lle cyntaf, defnyddiwch y model fel ffordd wahanol o weld eich system eich hun - a yw fy system i yn edrych fel hyn? Pe bai'n rhaid i mi grynhoi fy system fel hyn, sut fyddai'n edrych?
2. A oes gennych chi fynediad at y data y byddwch chi'n 'rhedeg drwy'r' model - sut mae'n eich gwneud chi'n ymwybodol o'r wybodaeth sydd ar goll?
3. Ystyriwch y cyfrannau a'r hyd yn y model: archwiliwch sut beth fydd 'ychwanegu 1000 o bobl ar y brig' dros amser. A yw hyn yn cyd-fynd â'r hyn a ddisgwyliwyd neu'r hyn sydd gennych neu yr ydych yn ei brofi? A allwch chi roi ateb o ran eich system?
4. Ystyriwch eich diffiniadau a'ch dealltwriaeth o'r carfannau: a ydych chi'n cytuno, a ydych chi'n gwybod mwy neu lai am yr hyn a nodir yn y diffiniadau? A allech chi fynegi'r carfannau fel graff dros amser? h.y. pryd ddaeth/byddant yn dod yn 'ddyfodiad' i wasanaethau ar frig y model?
5. Rhoi'r cyfan at ei gilydd: Mae'n bosibl bwydo trwy'r hyn rydych chi'n ei ddeall yw eich carfannau i fod yn y model? A yw'n bosibl cael yr un llun o'ch system go iawn? Os na, pam ddim – cipio data neu
6. ? Beth sydd ei angen arnoch i lywio eich cynllunio – hyn neu fwy/llai o fanylion?

## **Camau nesaf a gynlluniwyd**

Mae'r gwaith hwn yn parhau i gael ei rannu â chlinigwyr, rheolwyr a chynllunwyr mewn gwasanaethau sy'n darparu gwasanaeth adsefydlu i gefnogi, profi gwerth yr adnodd ac yn llywio datblygiad pellach y modelu. Mae sesiynau galw heibio misol ar gael ar gyfer cymorth cymheiriaid. Mae fideos o ddigwyddiadau ymgysylltu a gynhaliwyd yn flaenorol ar gael ar SharePoint GIG Cymru. Mae'r rhain yn darparu hyfforddiant byr ar werth modelu ac yna'n anelu at ddangos y model (gan ddefnyddio data a gasglwyd o wybodeg genedlaethol ac un Bwrdd Iechyd Prifysgol) ar gyfer carfan 1 i alluogi clinigwyr, rheolwyr a chynllunwyr i wella dealltwriaeth.

Mae'r tîm yn parhau i groesawu eich sylwadau ar yr adnodd hwn ac yn gofyn i bobl ddod ymlaen i ddarparu astudiaethau achos a llywio meincnodi.

Cysylltwch â ni os hoffech wneud sylw neu drafod ymhellach sut i ddefnyddio'r adnodd modelu: [wmc@wales.nhs.uk](mailto:wmc@wales.nhs.uk)